**Adran Lle a Seilwaith**
Uned Gofal Strydoedd / DGFfASN
Bloc 1, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ
**Ffôn: (01267) 224507/08/09**
**E-bost:** gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk

**Department of Place & Infrastructure**
Street Care / NRASWA Section
Block 1, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Carmarthen, SA31 1HQ
**Tel: (01267) 224507/08/09**
**E-mail:** streetcare@carmarthenshire.gov.uk

## DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991

**CAIS** am Drwydded i Osod, Cadw, a Chynnal Cyfarpar mewn Stryd o dan Adran 50 ac Atodlen 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 i Gyngor Sir Caerfyrddin ('Yr Awdurdod Stryd').

### ADRAN 1 – PERCHENNOG Y CYFARPAR

| **Enw a Chyfeiriad yr Ymgeisydd:**<br>*(Perchennog y cyfarpar)*<br><br>**Rhif Ffôn:** **Ebost:** | **Enw a Chyfeiriad yr Asiant:**<br>(*Anfonir yr holl ohebiaeth i'r cyfeiriad hwn)*<br><br>**Rhif Ffôn:** **Ebost:** |
|---|---|

### ADRAN 2 – LLEOLIAD A DISGRIFIAD O'R GWAITH ARFAETHEDIG

**Lleoliad y Gwaith:**

**Rhif y Ffordd:** **Cyfeirnod Grid yr OS:**

**Y rhannau o'r Stryd yr effeithir arnynt: Llain ochr [_____] Troedffordd [_____] Ffordd Gerbyd [_____] Lôn Gefn [_____]** *(Ticiwch )*

**Disgrifiad o'r Gwaith Arfaethedig:**

**Os yw hwn yn gysylltiad carthffos sy'n cynnwys cysylltiad â chyfarpar Dŵr Cymru, nodwch gyfeirnod cytundeb:**

| **Amcangyfrif o Hyd y Gwaith (pellter):** | **Dyfnder ar gyfartaledd**<br>*(Ticiwch flwch)* | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o faint fydd y Gwaith yn para:** | **Hyd at 1.5 metr** | | **Dros1.5 metr** | |
| **Dyddiad Cychwyn Arfaethedig:** | **Dyddiad Gorffen Arfaethedig:** | | | |

### ADRAN 3 – MANYLION Y SAWL/CONTRACTWR SY'N GWNEUD Y GWAITH

Rhaid i'r sawl sy'n cael trwydded drefnu i'r gwaith gael ei wneud gan berson sy'n meddu ar gymhwyster penodedig 'goruchwyliwr' ac, yn ogystal, rhaid iddo sicrhau bod person sy'n meddu ar gymhwyster penodedig 'gweithiwr' yn bresennol ar y safle drwy'r amser pan fydd gwaith yn mynd rhagddo ***(gweler y Nodiadau Esboniadol).***

| **Enw a Chyfeiriad y Contractwr:**<br><br>**Rhif Ffôn:** **Ebost:** | **Enw'r Goruchwyliwr:**<br><br>**Rhif Tystysgrif y Ddeddf Gwaith Stryd:**<br>**Enw'r Gweithiwr:**<br><br>**Rhif Tystysgrif y Ddeddf Gwaith Stryd:** |
|---|---|

## ADRAN 4 – INDEMNIO AC YSWIRIO

**Indemnio**

Bydd y sawl sy'n cael trwydded yn gorfod indemnio'r Awdurdod Stryd rhag unrhyw hawliad a wneir mewn perthynas ag anaf, niwed neu golled sy'n deillio o'r canlynol:

(a) gosod cyfarpar sy'n perthyn i'r Drwydded yn y stryd, neu bresenoldeb cyfarpar o'r fath
(b) gweithredu unrhyw waith a awdurdodir gan y Drwydded, a hynny gan unrhyw berson

Rhaid i'r indemniad a ddarperir gan y Polisi y cyfeirir ato isod fod yn werth o leiaf £10 miliwn ar gyfer unrhyw ddamwain unigol neu unrhyw hawliad unigol.

<u>**Tystysgrif Yswiriant**</u>

Rwyf i/Rydym ni drwy hyn yn tystio fy mod i/ein bod ni yn meddu ar y polisi isod gyda (Enw'r Cwmni Yswiriant):

_______________________________________________________________________________________

Rhif Polisi: ___________________________________ Dyddiad Dod i Ben: ___________________________

(Efallai y bydd angen i'r ymgeisydd ddangos prawf bod yr yswiriant yn cwmpasu'r swm y cyfeirir ato uchod).

## ADRAN 5 – CYNLLUNIAU

<u>Rhaid</u> cyflwyno'r cynlluniau canlynol gyda'r cais hwn.

1. Copi o Gynllun y Safle, wrth Raddfa sydd ddim llai na 1/500, sy'n dangos eiddo'r ymgeisydd wedi'i farcio'n Goch a safle arfaethedig y cyfarpar wedi'i farcio'n Las, ac

2. Copi o gynllun y lleoliad wrth raddfa o 1/1250 neu 1/2500 neu 1/10,000 sy'n dangos lleoliad y safle mewn perthynas â'r ardal oddi amgylch.

## ADRAN 6 – DATGANIAD

Cadarnhaf fod y manylion uchod yn gywir ac rwy'n cydnabod bod yn rhaid i'r gwaith y cyfeirir ato uchod gael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, y Rheoliadau a'r Codau Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r ddeddf, a'r Ddeddfwriaeth gysylltiedig, ynghyd ag unrhyw amodau y mae'r Awdurdod Stryd yn eu gosod yn y drwydded berthnasol.

**Y DDEDDF DIOGELU DATA**

Bydd y wybodaeth a nodir yn y cais hwn yn cael ei chadw gan yr Awdurdod yn ei system gofnodi gyfrifiadurol. Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth a nodir ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i ddilysu a chynnal data a gedwir ynghylch elfennau eraill o waith y Cyngor. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys casglu ystadegau a ddefnyddir i sefydlu dangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gael y gwerth gorau.

Caiff y wybodaeth ei datgelu i ymgymerwyr statudol, yr heddlu ac awdurdodau, cyrff a sefydliadau perthnasol eraill mewn perthynas â'r mater penodol y mae'r cais hwn yn perthyn iddo.

**Llofnodwyd:** ______________________________________ **Dyddiad:** ____________________________

Dylid dychwelyd y cais i gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk neu i'r cyfeiriad post uchod.

Ar ôl i'ch cais gael ei gofnodi, byddwch yn cael rhif cyfeirnod a dewisiadau ar gyfer talu ffi'r drwydded.

**Adran Lle a Seilwaith**
Uned Gofal Strydoedd / DGFfASN
Bloc 1, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ
**Ffôn: (01267) 224507/08/09**
**E-bost:** gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk

**Department of Place & Infrastructure**
Street Care / NRASWA Section
Block 1, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Carmarthen, SA31 1HQ
**Tel: (01267) 224507/08/09**
**E-mail:** streetcare@carmarthenshire.gov.uk

## DEDDF FFYRDD A STRYDOEDD NEWYDD 1991

## NODIADAU ESBONIADOL - CYMWYSTERAU GWEITHIAU STRYD

### Y gofynion cyfreithiol

Gyda Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991, mae dyletswydd ar ymgymerwyr i sicrhau bod gwaith sy'n golygu gosod, adnewyddu, cynnal ac archwilio cyfarpar tanddaearol mewn unrhyw stryd neu heol yn cael ei wneud o dan reolaeth personau cymwys. I fodloni gofynion y Ddeddf, rhaid i ymgymerwyr drefnu bod gwaith sy'n golygu chwalu'r stryd yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth person sydd â chymhwyster cymeradwy 'goruchwylydd'. Yn ogystal, p'un a yw'r stryd yn cael ei thorri neu beidio, rhaid sicrhau bod person sy'n meddu ar gymhwyster cymeradwy 'gweithredydd wedi'i hyfforddi' yn bresennol ar y safle bob amser tra bydd gwaith yn mynd yn ei flaen.

Ceir manylion y system gymwysterau yn Rheoliadau Gweithiau Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992 a ddaeth i rym ar 5 Awst 1992. Yn ôl y Rheoliadau hyn, mae'n ofynnol i'r ymgymerwyr gyflawni'r ddyletswydd i ddarparu goruchwylwyr cymwys cyn pen dwy flynedd ar ôl y dyddiad uchod, a gweithredwyr wedi'u hyfforddi cyn pen pum mlynedd.

### Beth yw ystyr y gair 'ymgymerydd'?

Person neu gorff yw ymgymerydd sy'n gwneud gwaith o dan naill ai:

i. hawl statudol (megis cwmni defnyddolion - teledu cêbl, trydan, nwy, carthffosiaeth, dŵr. telathrebu ac ati) neu

ii. trwydded neu ganiatâd a roddir gan awdurdod stryd neu briffyrdd (megis personau a chyrff sy'n gosod carthffosydd, draeniau, pibau cysylltu ar gyfer cyflenwi dŵr a chyfarpar arall at eu dibenion preifat eu hunain).

Fe all ymgymerwyr drefnu bod y personau cymwys yn cael eu darparu gan gontractwyr neu asiantwyr sy'n gweithio ar eu rhan, ond cyfrifoldeb yr ymgymerwyr fydd sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu bodloni.

### Beth yw cymhwyster cymeradwy?

Mae Rheoliadau Gweithiau Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992 yn diffinio'r cymwysterau ar gyfer gwahanol fathau a chyfuniadau o waith:

### Cymwysterau 'goruchwylwyr'

1. Monitro gwaith cloddio ar y briffordd
2. Monitro gwaith cloddio, llenwi ac adfer haenau adeiladu â deunydd bitwmenaidd
3. Monitro gwaith adfer haenau adeiladu mewn deunydd bitwmenaidd.

4. Monitro gwaith adfer slabiau conrid.

5. Monitro gwaith adfer arwynebau modwlaidd a phalmentydd concrid.

**Cymwysterau 'gweithredwyr wedi'u hyfforddi'**

1. Cloddio'r briffordd

2. Cloddio, llenwi ac adfer haenau adeiladu gydag arwyneb bitwmenaidd oer.

3. Adfer haenau adeiladu mewn deunyddiau bitwmenaidd oer a thwym.

4. Adfer slabiau conrid.

5. Adfer arwynebau modwlaidd a phalmentydd conrid.

Gall person ond bod yn oruchwylydd neu'n weithredydd yn y math o waith y cafodd gymhwyster ar ei gyfer. Fe all y bydd angen nifer o bersonau gwahanol â chymwysterau gwahanol felly i wneud holl agweddau'r gwaith. Fodd bynnag, nid oes terfyn ar nifer y cymwysterau y gall un person feddu arnynt.

**Beth yw'r sefyllfa os nad oes angen cloddio yn y stryd neu'r heol?**

Nid oes angen goruchwylydd cymwys i oruchwylio agor cloriau neu siambrau nac ar gyfer adnewyddu polion, lampau, colofnau ac arwyddion, profi â pholion a gwaith tebyg fydd yn golygu fawr ddim gwaith cloddio yn y stryd. Er hynny, fe fydd angen gweithredydd wedi'i hyfforddi sydd wedi cwblhau uned o gymhwysedd mewn gosod arwyddion, goleuo a gwarchod i fod yn bresennol. At y diben hwn, bydd cofnod cyrhaeddiad yn yr uned hon yn cyfrif fel cymhwyster cymwys.

**Pwy sy'n rhoi cymwysterau?**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi tri chorff i fod yn gyfrifol am ddyfarnu cymwysterau:

- City & Guilds of London Institute (Cymru a Lloegr yn unig)
- Scottish Vocational Education Council (Yr Alban yn unig)
- Bwrdd Ardystio ac Asesu y Diwydiant Dŵr

**Sut mae gwybod pwy sydd â'r cymwysterau?**

Cedwir Cofrestr o Gymwysterau Gweithiau Stryd yn cynnwys manylion y cymwysterau a ddyfarnwyd gan yr holl gyrff dyfarnu. Bydd person ar y gofrestr yn cael cerdyn adnabod personol yn dangos y cymhwyster neu'r cymwysterau a ddelir ganddo. Gellir cysylltu â'r Gofrestr trwy lythyr neu dros y ffôn i holi am gymwysterau unigolion. Codir tâl ar yr ymholwr am y gwasanaeth hwn. Bydd gofyn i'r deiliad ail gofrestru ei gymhwyster bob pum mlynedd.